**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 GORFFENNAF 2013** |
| TEITL | **SIARTER ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS | **CYFLWYNO SIARTER I'R GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL I'R PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R SIARTER** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cymeradwywyd Cylch Gorchwyl ar gyfer Archwilio Mewnol, a baratowyd yn unol â gofynion *Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006*, gan y Pwyllgor Archwilio ar 27 Medi 2012. yn datgan y dylid paratoi Cylch Gorchwyl ar gyfer Archwilio Mewnol.

1.2 Daeth *Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus* ("y Safonau") i rym ar 1 Ebrill 2013, gan ddisodli Côd Ymarfer CIPFA. Un o ofynion y Safonau Archwilio Mewnol newydd yw'r angen i lunio Siarter Archwilio Mewnol yn hytrach na "Cylch Gorchwyl". Mae'r Safonau, yn ogystal â Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol ategol a gyhoeddwyd gan CIPFA, yn manylu ar yr hyn a ddylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol.

1.3 Mae'r Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol yn nodi fod cymhariaeth rhwng y Cylch Gorchwyl sy'n ofynnol o dan Côd 2006 a Siarter Archwilio Mewnol yn dangos y gwahaniaethau canlynol yn unig:

- Roedd y Cylch Gorchwyl i nodi cyfraniad archwilio mewnol i'r adolygiad o effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli gan ei wneud yn angenrheidiol, a galluogi'r Pennaeth Archwilio Mewnol i gyflwyno barn archwilio blynyddol, a

- Mae'r Safonau yn bennaf yn gofyn am yr un cynnwys ag yn y Cylch Gorchwyl ar wahân i'r rhai pwyntiau penodol a nodir yn y gofyniad sector cyhoeddus "PSIAS 1000". Y gofyniadau hyn yw'r y pedwar pwynt bwled olaf yn y rhestr ym mharagraff 1.4 isod.

1.4 Yn ôl y Safonau, a Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol ategol a gyhoeddwyd gan CIPFA, mae'r hyn a ddylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol fel a ganlyn:

- Diffiniad ffurfiol o bwrpas, awdurdod, a chyfrifoldeb y gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n gyson â'r Safonau.

- Diffiniad o'r termau 'bwrdd' ac 'uwch reolwyr', at ddibenion y gweithgaredd archwilio mewnol. (Noder y disgwylir y bydd y pwyllgor archwilio yn cyflawni rôl y bwrdd yn y mwyafrif o achosion).

- Nodi sefyllfa'r gweithgarwch archwilio mewnol o fewn y sefydliad.

- Sefydlu perthynas adrodd swyddogaethol y Prif Swyddog Archwilio gyda'r bwrdd.

- Sefydlu atebolrwydd, llinell adrodd a’r berthynas rhwng y Prif Swyddog Archwilio a'r rhai y gall y Prif Swyddog Archwilio adrodd iddynt yn weinyddol.

- Sefydlu cyfrifoldeb y bwrdd a hefyd rôl y swyddogion statudol (fel y Prif Swyddog Cyllid, y swyddog monitro a phennaeth y gwasanaeth taledig) mewn perthynas ag archwilio mewnol.

- Sefydlu hawl archwilio mewnol i gael mynediad at yr holl gofnodion, asedau, personél ac adeiladau, a'i awdurdod i gael gwybodaeth ac esboniadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau.

- Diffinio cwmpas gweithgareddau archwilio mewnol.

- Cydnabyddiaeth bod cylch gwaith archwilio mewnol yn ymestyn i amgylchedd reolaeth gyfan y sefydliad.

- Sefydlu annibyniaeth sefydliadol Archwilio Mewnol.

- Ystyried y trefniadau ar gyfer adnoddau priodol.

- Diffiniad o rôl y gwasanaeth archwilio mewnol mewn unrhyw waith sy'n gysylltiedig â thwyll.

- Gosod allan y trefniadau sy’n bodoli ym mholisïau gwrth-lygredd a gwrth-dwyll y sefydliad, i gael eu hysbysu o'r holl dwyll, llygredd neu afreoleidd-dra a amheuir neu a ddarganfyddir.

- Y trefniadau ar gyfer osgoi gwrthdaro buddiannau os yw archwilio mewnol yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio.

- Diffiniad o natur y gwasanaethau sicrwydd a ddarperir i'r sefydliad, yn ogystal â sicrwydd a ddarperir i bartïon sy’n allanol i'r sefydliad.

- Diffiniad o natur gwasanaethau ymgynghori.

- Cydnabyddiaeth o natur fandadol y Safonau.

1.5 Rhoddwyd ystyriaeth i’r uchod wrth adolygu’r Cylch Gorchwyl ar gyfer Archwilio Mewnol a’i addasu er mwyn creu Siarter Archwilio Mewnol i Gyngor Gwynedd.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio ystyried cynnwys y Siarter Archwilio Mewnol, ei gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl.